

Ymyriad	Cynnig Casnewydd		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Melyn	Cynnydd dan y targed ond yn bosibl ei gyrraedd	
Arwain	Will Godfrey	Cyfnod Adrodd	Chw. 1 2019-20	Coch	Cynnydd ymhell islaw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Brandio dwyieithog newydd wedi ei ddatblygu i Ddinas Casnewydd i helpu'r gwaith hyrwyddo.

Llyfryn buddsoddi newydd wedi ei gyhoeddi a gwaith ar y gweill ar wefan.

Datblygu cynllun rheoli cyrchfan drafft i'w ymgynghori gan y Grŵp Rheoli Cyrchfan. Nod y cynllun yw cynyddu economi ymwelwyr Casnewydd a gwella canfyddiadau am y ddinas.

Marathon Casnewydd llwyddiannus a disgwyl iddo gyfrannu £1.1M i'r economi leol a swm tebyg ar gyfer elusennau. Llwybr y Marathon wedi dangos asedau twristiaeth, treftadaeth a gwyrdd Casnewydd ac yn cynnwys canol y ddinas i sicrhau budd i fusnesau.

Disgwyl i'r Chartist Hotel acgor Cyn Nadolig 2019. Partneriaid BGC yn buddsoddi mewn cartrefi yng nghanol y ddinas, helaethu'r dewis ym Marchnad Casnewydd (cytunwyd ar fenthyciad i gefnogi hyn) a defnyddio Arcêd y Farchnad, sy'n ased treftadaeth, yn gynhyrchiol unwaith eto (tendrau wedi eu derbyn ar gyfer y project adfywio hwn).

Astudiaeth gwmpasu wedi ei chynnal i asesu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwres (systemau gwresogi rhanbarthol) ledled y ddinas.

Prif Risgiau/Rhwystrau i gynnydd	Statws (U/C/I)	Camau lliniaru/cymorth sydd eu hangen
Methu cytuno ar weledigaeth gyffredin ar gyfer Casnewydd/cydlynu gweithgareddau	Canolig	Trafodaethau parhaus rhwng y swyddog arweiniol, RhEC a DMG
Methu creu argraff gadarnhaol ar ymwelwyr â'r ddinas	Isel	Partneriaid yn cydweithio i sicrhau amgylchedd diogel, glân a chroesawgar

Mesurau Perfformiad Allweddol

	Targed	Gwirioneddol	RAG
Canran o bobl sy'n dweud bod Casnewydd yn lle da i fyw (Wi-Fi Bws)	Dros 45%	Dan 25 oed 58%; Dros 25 oed 46%	Gwyrdd
Canran o bobl sy'n dweud bod Casnewydd yn dod yn lle da i fyw (Wi-Fi Bws)	Dros 49%	Dan 25 oed 56%; Dros 25 oed 42%	Melyn
Canran o bobl sy'n dweud eu bod yn falch o ddod o Gasnewydd (Wi-Fi Bws)	Dros 45%	Dan 25 oed 54%; Dros 25 oed 42%	Melyn
Economi ymwelwyr	£396.53 miliwn	Ffigur diwedd blwyddyn	
Nifer o ymwelwyr	4.78 miliwn	Ffigur diwedd blwyddyn	
Nifer o ymwelwyr â'r wefan Cyrchfan	I'w gadarnhau		

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Gwefan cyrchfan i fynd yn fyw erbyn diwedd Awst 2019.

"Diwrnod Cyrchfan" ym mis Hydref 2019 i ddatblygu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymglymu a chodi profi y ddinas fel cyrchfan i ymwelwyr.

Y Sblash Mawr – Gorffennaf 2019; Gemau Trawsblaniad Prydain – Gorffennaf 2019; Gŵyl Fwyd Casnewydd – Hydref 2019.

Gweithdy ym mis Medi i ystyried posibilrwydd defnyddio model "Bargen Wigan" ar gyfer Casnewydd gyda nifer o bartneriaid BGC.